



Asbestos ac addurniadau Nadolig

Wrth i gyfnod yr ŵyl ddynesu, bydd llawer o ysgolion yn rhoi eu haddurniadau Nadolig Cofiwch na ellir gofyn i athrawon osod unrhyw ddefnyddiau arddangos, ond os bydd unrhyw athro/athrawes neu aelod o staff cymorth eisiau gwneud hynny, dylent nodi'r canlynol:

Mae'n bosibl bod unrhyw ysgol a adeiladwyd cyn y flwyddyn 2000 yn cynnwys asbestos, a bod nifer o athrawon ac aelodau o'r staff cymorth wedi dod ar draws asbestos heb iddynt wybod hynny drwy osod pethau ar waliau a nenfydau gyda phin Mae gwthio pin bawd i mewn i ddefnydd sy'n cynnwys asbestos yn rhyddhau 6,000 o ffibrau, tra bo gwn styffylu'n gallu rhyddhau llawer mwy na hynny.

Heblaw bod yr ysgol wedi'i hadeiladu ar ôl y flwyddyn 2000, dylech bob amser dybied bod asbestos yn bresennol, heblaw bod tystiolaeth glir i'r gwrthwyneb Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith fod pob ysgol sy'n cynnwys asbestos yn cadw cofrestr asbestos, sy'n nodi'n fanwl lle mae asbestos i'w gael yn yr ysgol Dylai aelodau a chynrychiolwyr iechyd a diogelwch mewn ysgolion a adeiladwyd cyn 2000 ofyn i weld cofrestr asbestos yr ysgol os oes ganddynt unrhyw bryderon ynglŷn ag asbestos a allai fod yn bresennol yn y gweithle, a chyn pinio unrhyw beth i'r waliau neu nenfydau Os yw asbestos yn bresennol, dylai hyn gael ei labelu'n glir.

Os nad oes gan ysgol a adeiladwyd cyn 2000 gofrestr asbestos, ac os nad oes unrhyw dystiolaeth o arolwg sy'n cadarnhau nad oes unrhyw asbestos yn bresennol, dylid rhoi gwybod am hyn ar unwaith i NASUWT Dylid rhoi gwybod i'r pennaeth am unrhyw asbestos sydd heb ei labelu a dylid ei drwsio yn ddi-oed Os oes unrhyw broblemau gyda labelu, yna, unwaith eto, dylid rhoi gwybod am hyn i NASUWT.

Asesiadau HSE o risgiau straen

Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) wedi cadarnhau bod straen sy'n gysylltiedig â gwaith yn berygl yn y gweithle Felly, mae'r gyfraith yn gofyn bod yn rhaid asesu risg o'r fath yn union yr un fath ag y gwneir gydag unrhyw berygl arall yn y gweithle.

Yn union yr un fath ag byddai'n annerbyniol i asesu risgiau megis peryglon sy'n gysylltiedig â gweithio ar lefelau uchder dim ond ar ôl i rywun syrthio, mae'n annerbyniol aros nes bod aelod o staff yn mynd yn sâl cyn gwneud asesiad o'r risg o straen sy'n gysylltiedig â gwaith Mae'n rhaid gwneud asesiadau risg a'u diweddarau'n rheolaidd a rhannu'r rhain yn rheolaidd gyda NASUWT.

Ystadegau HSE am achosion o anaf a salwch



Mae HSE wedi cyhoeddi'r ystadegau diweddaraf am achosion o anaf a salwch. Mae'r rhain yn dangos graddfa'r broblem o straen sy'n gysylltiedig â gwaith ac yn nodi eu bod yn gyfrifol am 49% o ddiwrnodau ar goll, mwy nag unrhyw achos arall, gyda chyfraddau yn y sector addysg sy'n sylweddol uwch na'r cyfartaledd i'r galwedigaethau i gyd Mae'r ystadegau'n tanlinellu'r ffaith fod angen i bob cyflogwr gymryd o ddirif y broblem o straen sy'n gysylltiedig â gwaith, a gwneud asesiadau risg.

Mae'r ystadegau llawn ar gael ar:

<http://www.hse.gov.uk/statistics/overall/hssh1617.pdf>

